# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Marsha Preston**

**Pontypridd**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**14 Mawrth 2019**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Marsha Preston fel gwarchodwraig ym mis Mawrth 1997. Mae'n gofalu am hyd at chwech o blant o dan 12 oed o'i chartref ym Meddau, Pontypridd. Mae'r gwasanaeth ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7:30am a 5:30pm. Mae'r warchodwraig wedi rhoi gwybod i ni'n ddiweddar iawn fod ganddi bellach gynorthwyydd i helpu ar adegau prysur. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

**1. Asesiad cyffredinol**

Yn gyffredinol, canfu Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fod y plant wedi setlo ac yn hapus yn y gwasanaeth hwn. Maent yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau chwarae gyda'r warchodwraig yn ei chartref ac yn y gymuned leol. Caiff y plant ofal gan ymarferydd gofalgar mewn amgylchedd cynnes a chyfforddus. Mae'r warchodwraig yn cynnal partneriaethau addas â'r rhieni ac mae'n rheoli ei busnes yn foddhaol. Mae angen i'r warchodwraig wneud rhai newidiadau o dan y themâu gofal a datblygiad, amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

**2. Gwelliannau**

Yn dilyn yr arolygiad diwethaf, mae'r darparwr wedi gwneud y canlynol:

- mynychu hyfforddiant ar reoli ymddygiad cadarnhaol plant cyn-ysgol a darparu ei thystysgrif;
- cadw cofnod o ddamweiniau a digwyddiadau mewn llyfr
- sicrhau y caiff allfeydd ei thŷ eu cadw dan glo bob amser pan gaiff plant eu gwarchod er mwyn sicrhau eu diogelwch.

Yn ystod yr arolygiad hwn, mae'r darparwr wedi gwneud y canlynol:

- o ganlyniad i gael gwybod nad oedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau, mae wedi cymryd camau ar unwaith i lunio a chwblhau asesiadau risg a diweddaru ei datganiad o ddiben.

Mae'r darparwr hefyd wedi gwneud y canlynol:

- cadarnhau bod tywelion papur bellach yn cael eu defnyddio ar gyfer sychu dwylo;
- darparu tystiolaeth i ddangos y defnyddir menig wrth newid cewynnau;
- darparu ei thystysgrif prawf gwresogi;
- darparu tystiolaeth i ddangos bod ymarferion tân bellach yn cael eu cynnal a'u cofnodi;
- cadarnhau y caiff cofnodion eu cynnal o ymwelwyr ac aelodau o'r cartref sy'n bresennol pan fo plant yn cael eu gwarchod;
- darparu ei thystysgrif hyfforddiant amddiffyn plant;

- darparu ei dogfennaeth yswiriant cerbyd
- anfon copi o'i hadroddiad ar ansawdd y gofal ymlaen i AGC.

## 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethpwyd rhai argymhellion, a nodir ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau chwarae yng ngwasanaeth y warchodwraig hon.  Mae ganddynt lais da ac maent yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Mae'r plant yn datblygu'n weddol dda ac yn dysgu sut i rannu a dod yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Mae’r plant yn cael eu hannog i wneud dewisiadau ac i fynegi eu hunain.

Roedd y plant yn gallu dewis beth i chwarae ag ef a ble i chwarae. Gwelsom y plant yn helpu eu hunain i deganau o'r blychau fel y cerbydau a'r doliau. Clywsom y plant yn gofyn am gael gwylio eu hoff raglen deledu ac am gael eu heitemau cysur pan oeddent wedi blino. Gweithredwyd ar iaith corff y plant. Er enghraifft, pan welwyd bod plentyn iau wedi blino, aethpwyd ag ef i orffwys a chael cwsg. Roedd y plant yn symud yn rhydd o gwmpas yr ardaloedd chwarae a chartref y warchodwraig yn hyderus.

Mae gan y plant lais da.

### 1.2 I ba raddau y mae plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant wedi setlo ac mae ganddynt gydberthynas dda â'r warchodwraig.

Roedd y plant yn hapus ac wedi setlo, gan gynnwys y plant newydd. Gwelsom fod gan y plant gydberthnasau agos â'r warchodwraig, a'u bod yn mynd ati i gael cysur a sicrwydd. Er enghraifft, gwelsom y warchodwraig yn cofleidio plentyn ar ôl iddo fynd ati. Ymatebodd y plant yn gadarnhaol ag wynebau hapus pan gawsant eu canmol am eu hymdrechion, megis gorffen eu cinio ac adnabod anifeiliaid yn gywir.

Mae gan y plant gydberthnasau da ac maent yn teimlo'n ddiogel.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn cydweithredu ac yn rhyngweithio'n dda, ac maent yn hyderus yn rhyngweithio â'r warchodwraig a'i theulu.

Roedd ymddygiad y plant yn dda. Gwelsom y plant yn chwarae gyda'i gilydd yn dda ac ambell waith yn chwarae gyda'i gilydd â'r teganau anifeiliaid. Roedd y plant yn ystyriol o'i gilydd, ac fe'u gwelsom yn rhannu'r deinosoriaid. Gwelsom y plant yn rhyngweithio'n hyderus ac roeddent yn gyfforddus â'r warchodwraig a'i theulu. Roedd y plant yn teimlo'n gyfforddus wrth fynd at y warchodwraig i ofyn am eitemau, fel eu heitemau cysur.  Anogwyd y plant i gyfathrebu gan ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae gan y plant ddiddordeb yn eu gweithgareddau chwarae ac maent yn mwynhau chwarae rhydd.

Gwelsom fod y plant yn mwynhau eu hamser gyda'r warchodwraig; roeddent yn chwarae'n frwd â'r deinosoriaid ac yn mwynhau sleidio'r ceir ar hyd y llawr. Gwelsom fod y plant yn dilyn eu diddordebau eu hunain ac yn mwynhau chwarae ar eu pen eu hunain yn bennaf. Fodd bynnag, roeddent yn chwarae gyda'i gilydd am gyfnodau byr ambell waith, a oedd yn addas o ran eu datblygiad a'u hoedran. Gwelsom fod y plant yn hoffi rhoi eu doliau i eistedd ar y soffa gyda nhw i wylio eu hoff raglen deledu. Gwelsom un plentyn yn mwynhau'r her o adnabod yr anifeiliaid a oedd wedi'u harddangos ar galendr, a'r ganmoliaeth a gafodd am wneud hynny yn fawr iawn. Roedd cyflenwad addas o adnoddau chwarae sy'n briodol ar gyfer oedran y plant ar gael iddynt.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant wedi'u cymell ac maent yn datblygu eu sgiliau unigol.

Bwytaodd y plant eu pecynnau cinio'n annibynnol, gyda'r warchodwraig wrth law i gynnig cymorth os oedd angen. Cafodd y plant iau gymorth wrth fwyta. Gwelsom y plant yn dringo i fyny ac i lawr y grisiau yn annibynnol gan ddefnyddio'r dull o'u dewis, megis cydio yn y canllaw grisiau neu eistedd ar bob step. Clywsom y plant yn enwi anifeiliaid a'r synau roeddent yn eu gwneud yn hyderus ac yn gywir. Roedd y plant yn cael cyfleoedd da i ddatblygu'n gymdeithasol wrth ryngweithio â phlant eraill yn y grwpiau chwarae lleol.

Mae'r plant yn datblygu, yn dysgu ac yn meithrin annibyniaeth yn dda.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r warchodwraig yn adnabod y plant sydd yn ei gofal yn dda ac yn eu cefnogi'n briodol. Mae'r warchodwraig yn rheoli rhyngweithio'r plant yn gadarnhaol mewn ffordd garedig a gofalgar, ac yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ar y cyfan. Mae angen i'r warchodwraig wneud rhai mân welliannau o dan y thema hon.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r warchodwraig yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach ar y cyfan.

Roedd y warchodwraig yn rhoi blaenoriaeth i ddiogelu gan ei bod hi'n ymwybodol o'i dyletswyddau a'i chyfrifoldebau i roi gwybod am unrhyw bryderon. Dywedodd wrthym ei bod hefyd yn gyfarwydd â'r canllawiau ar Radicaleiddio ar Ddyletswydd Atal. Roedd y warchodwraig yn darparu byrbrydau a diodydd ond roedd y plant yn dod â'u pecynnau cinio eu hunain. Roedd y warchodwraig yn rhoi negeseuon diogelwch i'r plant, er enghraifft roedd yn atgoffa'r plant i fod yn ofalus wrth eistedd ar y cadeiriau. Roedd y warchodwraig yn dilyn gweithdrefnau hylendid cymharol dda, ac yn annog y plant i olchi eu dwylo cyn ac ar ôl cinio. Fodd bynnag, dywedodd wrthym mai dim ond un tywel a ddefnyddid i sychu dwylo'r plant. Gwelsom hefyd nad oedd hi'n gwisgo menig wrth newid cewynnau, ac fe'i gwelsom yn chwythu ar fwyd y plant i'w oeri.

Mae'r warchodwraig yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach mewn modd priodol.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r warchodwraig yn fodel rôl da ac yn hybu ymddygiad cadarnhaol.

Roedd y warchodwraig yn rheoli'r rhyngweithio yn dda. Gwelsom ei bod yn siarad â'r plant yn barhaus ac yn eu hannog i fod yn ystyriol o'i gilydd. Gwelsom y warchodwraig yn cofleidio'r plant, gan roi sicrwydd a chanmoliaeth iddynt am eu hymdrechion a'u cyflawniadau. Roedd hi'n dyner ac yn gadarnhaol drwy gydol ein hymweliad, ac yn siarad yn garedig â'r plant. Roedd y warchodwraig wedi llunio polisi rheoli ymddygiad, a oedd yn cynnwys strategaethau i hybu ymddygiad cadarnhaol megis canmol plant, a welsom ar waith. Roedd ymddygiad y plant yn dda.

Mae'r warchodwraig yn rheoli'r rhyngweithio yn effeithiol.

### 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r warchodwraig yn diwallu anghenion y plant ac yn hyrwyddo diddordebau unigol y plant.

Roedd y warchodwraig wedi casglu gwybodaeth am anghenion a diddordebau'r plant cyn iddynt ddechrau yn y gwasanaeth. Roedd yn arsylwi ar y plant iau er mwyn sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Er enghraifft, roedd yn gofyn i'r plant a oedd yn dysgu sut i ddefnyddio'r toiled a oedd angen iddynt fynd i'r toiled. Dywedodd wrthym fod y plant yn mwynhau dysgu am anifeiliaid yn fawr iawn a'u bod yn gwylio rhaglenni dogfen ar

anifeiliaid. Dywedodd y warchodwraig wrthym fod y plant yn cwblhau tasgau megis paru lliwiau a chyfrif a'u bod yn cymryd rhan yn ystod amser stori. Clywsom y plant yn cyfrif y grisiau wrth iddynt eu dringo ac yn defnyddio'r Gymraeg. Dywedodd y warchodwraig wrthym fod ganddi brofiad o weithio gyda phlant ag anableddau dysgu, a'i bod hefyd wedi defnyddio ei gwybodaeth am Makaton gyda'r plant er mwyn helpu i ddatblygu eu hiaith a'u lleferydd. Dywedodd y warchodwraig wrthym ei bod hi'n mynd â'r plant allan i wahanol lefydd yn rheolaidd, canolfannau chwarae meddal, grwpiau chwarae, parciau lleol a llwybrau cerdded, fel eu bod yn cadw'n heini ac yn cael cyfleoedd i gymdeithasu ag eraill.

Mae'r warchodwraig yn hyrwyddo anghenion unigol, dysgu a datblygiad y plant yn dda.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r warchodwraig yn darparu amgylchedd cynnes a chartrefol. Mae'n cynnig dewis o adnoddau i'r plant y gallant gael gafael arnynt yn annibynnol. Mae'n hyrwyddo amrywiaeth ac ymwybyddiaeth amlddiwylliannol. Mae angen i'r warchodwraig wneud rhai gwelliannau o dan y thema hon.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ar y cyfan.

Roedd y warchodwraig yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn lân ar y cyfan drwy gloi'r prif ddrws. Nid oedd gan y warchodwraig asesiadau risg ar waith. Fodd bynnag, dywedodd wrthym ei bod yn cynnal asesiadau risg gweledol o'i chartref. Dywedodd y warchodwraig wrthym fod y system wresogi wedi cael ei phrofi ym mis Mehefin 2018. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif prawf gwresogi ar gael ar adeg yr adolygiad. Roedd blanced dân wedi'i lleoli y tu ôl i ddrws y gegin ond dywedodd y warchodwraig wrthym nad oedd hi wedi cynnal na chofnodi unrhyw ymarferion tân. Fodd bynnag, dywedodd wrthym ei bod wedi siarad â'r plant am ei gweithdrefnau gwacáu oherwydd tân. Roedd cyfarpar diogelwch megis cliciedau diogelwch wedi'u gosod ar gypyrddau'r gegin; roedd monitor babanod ar waith; ac roedd giatiau diogelwch wedi'u gosod ar ben ac ar waelod y grisiau. Roedd y warchodwraig wedi cofrestru gydag adran Iechyd yr Amgylchedd ar gyfer hylendid bwyd.

Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a glân.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r warchodwraig yn darparu lle a chyfleusterau sy'n addas ar gyfer anghenion y plant yn ei gofal.

Roedd y warchodwraig yn sicrhau bod y safle dan do ac yn yr awyr agored yn groesawgar ac yn darparu amgylchedd da ar gyfer chwarae a dysgu. Roedd digon o le a chyfleusterau ar gael i ddiwallu anghenion y plant o ran chwarae, amser tawel a chwarae corfforol. Roedd yr ystafell fyw ar gael i'r plant ei defnyddio ar gyfer amser chwarae, ac roeddent yn defnyddio ystafell ar y llawr cyntaf ar gyfer amser cysgu a'r ardal fwyta yn y gegin ar gyfer gweithgareddau chwarae blêr ac i fwyta prydau. Roedd y plant yn defnyddio'r ardd gefn a oedd wedi'i rhannu'n lefelau (yr ardal wedi'i decio yn bennaf) er mwyn cael awyr iach a chwarae yn yr awyr agored. Fodd bynnag, dywedodd y warchodwraig wrthym mai pur anaml yr oedd hi'n defnyddio'r ardd gan ei bod hi'n mynd â'r plant allan i'r gymuned leol yn rheolaidd. Roedd ystafell ymolchi ar gael i'r plant ar y llawr cyntaf.

Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod y safle yn addas ar gyfer anghenion y plant.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau ansawdd yr adnoddau a'r cyfarpar?

Mae'r warchodwraig yn cynnig amrywiaeth ddigonol o deganau ac adnoddau, sydd o ansawdd addas. Mae adnoddau priodol o ran oedran ar gael i'r plant sy'n derbyn gofal.

Roedd y warchodwraig yn sicrhau bod gan y plant gelfi, offer a theganau a oedd yn addas ar gyfer eu hoedran, eu hanghenion a'u datblygiad. Roedd y rhain mewn cyflwr da ac yn lân. Roedd adnoddau megis teganau babanod, teganau meddal, doliau, eitemau addysgol, anifeiliaid y sw, deinosoriaid, llyfrau a cherbydau ar gael i'r plant. Dywedodd y warchodwraig wrthym fod ganddi ddewis mawr o deganau ac, felly, ei bod yn eu cylchdroi'n wythnosol. Dywedodd y warchodwraig wrthym ei bod yn dathlu'r gwyliau traddodiadol, ond ei bod hefyd yn dathlu rhai o wyliau ehangach y byd, megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Hanukkah, ac mae hefyd wedi dysgu am ddiwylliant Zimbabwe. Roedd ganddi rai eitemau megis posau, llyfrau, CDs Cymreig, Hebraeg ac Affricanaidd a doliau a oedd yn dangos gwahanol genhedloedd ac amrywiaeth.

Mae'r warchodwraig yn sicrhau bod digon o deganau, adnoddau a chyfarpar ar gael.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae gan y warchodwraig bartneriaethau priodol â'r rhieni.  Mae ganddi systemau cadw cofnodion effeithiol ar waith ar y cyfan. Mae'r gwaith o reoli'r busnes yn ddigonol. Mae angen i'r warchodwraig wneud rhai gwelliannau o dan y thema hon.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Ar y cyfan, mae'r warchodwraig yn ymdrechu i gydymffurfio â'r rheoliadau perthnasol a'r safonau gofynnol cenedlaethol. Mae'n cadw polisïau, gweithdrefnau a chofnodion yn ddigonol.

Roedd gan y warchodwraig ddatganiad o ddiben ar waith. Fodd bynnag, roedd rhywfaint o'r wybodaeth ar goll, megis cyfeiriad a rhif cyswllt, ac roedd angen ei ddiweddaru â chynorthwyydd newydd y warchodwraig. Roedd yn cadw amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau. Fodd bynnag, nid oedd wedi dyddio'r rhan fwyaf o'r dogfennau at ddibenion dilysu ac adolygu. Roedd y warchodwraig yn cadw amrywiaeth o gofnodion y plant megis cofrestr, ffurflenni gwybodaeth, ffurflenni cydsyniad rhieni, ffurflenni cydsyniad ar gyfer gofal meddygol brys, contractau a chofnodion digwyddiadau a damweiniau. Roedd wedi cael cydsyniad i roi meddyginiaeth ac roedd yn cadw cofnodion yn nyddiaduron dyddiol y plant; fodd bynnag, nid oedd yn cadw unrhyw gofnodion o feddyginiaeth ar ei chyfer hi ei hun. Roedd y warchodwraig yn cadw dyddiaduron dyddiol ar gyfer y plant iau a dywedodd wrthym ei bod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni yn rheolaidd am ddiwrnod eu plentyn, a hynny ar lafar a thrwy'r cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd wrthym ei bod wedi prynu ap ‘Kinderly Early Years Education’ fel y gallai gofnodi, cynllunio a rhannu dysgu a datblygiad y plant. Fodd bynnag, dywedodd wrthym nad oedd hi wedi defnyddio'r system ers peth amser. Dywedodd y warchodwraig wrthym nad oedd hi wedi bod yn defnyddio llyfr ymwelwyr. Fodd bynnag, ar adeg yr adolygiad, roedd yn defnyddio ei dyddiadur i gofnodi ymwelwyr a chytunodd i barhau â'r arfer hwn ar gyfer ymwelwyr yn y dyfodol. Roedd tystysgrif yswiriant atebolrwydd cyhoeddus dilys ar gael.  Roedd y warchodwraig yn defnyddio ei cherbyd i gludo'r plant. Fodd bynnag, nid oedd dogfennaeth y cerbyd ar gael i'w harolygu.

Mae'r arweinyddiaeth yn ddigonol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r warchodwraig yn awyddus i adolygu ei gwasanaeth er mwyn gwneud gwelliannau.

Roedd gan y warchodwraig system hunanwerthuso, a oedd yn cynnwys holiaduron i'r rhieni a'r plant. Roedd y warchodwraig wedi cael rhai holiaduron wrth baratoi ar gyfer ei hadolygiad blynyddol, ac roedd yn y broses o lunio ei hadroddiad ar gyfer eleni.  Roedd y warchodwraig wedi cael adborth cadarnhaol megis, '….loves the morning she spends with Marsha’, ‘fantastic over-all’, ‘… is developing excellent social skills’, ‘Marsha is very approachable and communication is excellent’ a ‘she is exceptional and we love her’.

Cytunodd y warchodwraig i roi copi o'i hadroddiad ar ansawdd y gofal i AGC o fewn 28 diwrnod ar ôl ei gwblhau.

Mae'r prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant yn cael eu datblygu.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r warchodwraig yn ymwybodol o'i hamodau cofrestru ac mae'n sicrhau bod y gwiriadau addasrwydd yn ddilys ar gyfer yr oedolion yn y cartref.

Roedd y warchodwraig yn ymwybodol o'i hamodau cofrestru. Roedd yn sicrhau bod gan bob oedolyn yn y cartref dystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Dywedodd y warchodwraig wrthym ei bod yn ddiweddar wedi adnewyddu'r holl hyfforddiant craidd, ym maes cymorth cyntaf, hylendid bwyd ac amddiffyn plant. Fodd bynnag, nid oedd y dystysgrif amddiffyn plant ar gael ar adeg yr arolygiad. Roedd y warchodwraig yn meddu ar gymhwyster Lefel 3 NVQ mewn Gofal, Dysgu a Datblygiad Plant ac roedd wrthi'n dysgu Cymraeg. Mae'n bwriadu mynychu cwrs Lleferydd ac Iaith yn y dyfodol, ac mae'n meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad plant drwy ddarllen cyhoeddiadau gwahanol.

Mae'r warchodwraig yn rheoli'r gwasanaeth yn dda.

### 4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?

Mae'r warchodwraig yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni ac yn cyfathrebu'n rheolaidd â nhw.

Roedd gan y warchodwraig gydberthnasau gwaith cadarnhaol â'r rhieni, ac roedd yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig rheolaidd ar ddiwedd pob sesiwn. Rhannodd lawer o luniau o'r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau â ni. Roedd y warchodwraig yn darparu ei pholisïau a'i gweithdrefnau i'r rhieni a darpar rieni. Roedd y warchodwraig yn mynd â'r plant allan i'r gymuned leol bob dydd, a hynny i lefydd megis y grŵp chwarae, canolfannau chwarae meddal, amrywiaeth o barciau a llwybrau cerdded, fel eu bod yn cymryd rhan mewn ystod eang o brofiadau ac yn datblygu'n gyfannol.

Mae gan y warchodwraig bartneriaethau effeithiol.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

- Rheoliad 25 (a) Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau bod pob rhan o'r safle perthnasol y gall y plant perthnasol ei defnyddio yn rhydd o beryglon i'w diogelwch i'r graddau sy'n rhesymol ymarferol. **Mae'r gofyniad hwn wedi'i fodloni.**
- Rheoliad 20 (4) (a). Y rheswm dros hyn yw na chynhaliwyd gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer mab y warchodwraig sy'n byw yn yr eiddo ac a drodd yn 16 oed chwe mis yn flaenorol. **Mae'r gofyniad hwn wedi'i fodloni.**

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Argymhellwyd gennym y dylai'r darparwr wneud y canlynol:

- dilyn y gweithdrefnau hylendid priodol wrth oeri bwyd;
- sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu dyddio at ddibenion dilysu ac adolygu
- sicrhau bod y warchodwraig yn cadw copi o'r cofnod o feddyginiaeth a roddir.

## **6.** Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau.

Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 9 Ionawr 2019 am tua 3 awr. Gwnaethpwyd y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi ar arferion;
- siarad â'r plant a'r warchodwraig;
- darparu holiaduron i'w rhoi i'r rhieni a'r plant
- rhoi adborth manwl dros y ffôn i'r warchodwraig ar 11 Ionawr 2019.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwarchodwraig** |
| **Person Cofrestredig** | **Marsha Preston** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **6** |
| **Ystod oedran y plant** | **0 i 12 oed** |
| **Oriau agor** | **Dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 7:30am a 5:30pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **18 Mai 2015** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **09 Ionawr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl/plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol dilynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg ym maes gofal cymdeithasol'.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |